

LLAWLYFR



Ysgol Bro
Plenydd
2018 – 2019



Annwyl Riant / Warcheidwad,



Croeso cynnes i Ysgol Bro Plenydd ! Rhoddwyd y llyfryn hwn at ei gilydd er mwyn cyflwyno gwybodaeth bwysig am yr ysgol i rieni a darpar rieni.

Dylai'r cyfnod hwn fod yn un hapus ym mywyd eich plentyn pan mae fel sbwng chwilfrydig yn barod i dderbyn gwybodaeth a syniadau newydd a phan mae yn rhyfeddu ar y byd o'i gwmpas. Mae gan eich plentyn yr hawl i'r cyfleoedd addysgol gorau y gallwn eu darparu.

Fy nod yn Ysgol Bro Plenydd yw ein bod yn meithrin disgyblion hyderus fydd ym mwynhau dysgu ac sydd wedi eu harfogi a'r sgiliau anghenrheidiol i fod yn ddysgwyr gydol oes yn y byd sydd ohoni heddiw. Bydd angen i blentyn allu gwyneb sialensau dysgu yn annibynnol, cydweithio ag eraill a chymhwyso sgiliau ymchwiliol i bob sefyllfa.

Rwyf am i'n disgyblion adael yr ysgol gydag atgofion melys a hapus o'u cyfnod yma ond hefyd yn unigolion hyderus sy'n barod i wynebu'r her nesaf.

Credaf ei bod yn holl bwysig fod eich plentyn yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo ei fod yn perthyn i'r gymuned groesawgar, ysgogol, diogel a gweithgar yr ydym fel staff addysgu yn geisio ei meithrin yma.

Mae'n bwysig hefyd fod ein disgyblion yn ran o gymuned ddisgybledig sy'n dysgu ymddygiad o'r radd flaenaf.. Mae dysgu parch, goddefgarwch ac empathi tuag at eraill yn flaenoriaeth.

Mae pob plentyn yn yr ysgol hefyd yn ran o gymuned eangach. Mae'n nod gennyf fod pob plentyn yn dod i adnabod a gwerthfawrogi y diwylliant Cymreig sy'n ran o gymuned yr ysgol hon. Ar y llaw arall mae pob plentyn hefyd yn ddinesydd byd eang ac mae datblygu cydwybod pryderus ynglyn a sefyllfa ein cyd ddyn a'n planed yn bwysig. Mae'r dyfodol yn nwylo ein plant.

Credaf yn gryf fod cydweithio a rhannu gweledigaeth ac egwyddorion rhwng cartref ac ysgol yn holl bwysig. Partneriaeth rhyngthoch a ninnau yw addysg eich plentyn ac fe wnawn bopeth i hyrwyddo eich dealltwriaeth o'r broses addysgu a'r hyn y gallwch ei wneud adref i hyrwyddo addysg eich plentyn.

Yn Gywir,

Carys Hughes [Pennaeth]

Ysgol Bro Plenydd



Ysgol Bro Plenydd

Y Ffor

Pwllheli

Gwynedd

LL536UP

Rhif ffon: 01766 810625

E - bost :

CarysHughes2@gwynedd.gov.uk

Pennaeth: Mrs Carys Hughes B.A

Cadeirydd y Corff Llywodraethol :



Trefniadaeth Yr Ysgol 2018—2019

Bydd 3 dosbarth yn yr ysgol eleni. Dyma restr o'r dosbarthiadau hynny a tim staff Ysgol Bro Plenydd :



Dosbarth Y Cam Sylfaen :

Athrawon : Mrs Hayley Allanson a Ms Catrin Mair Parry

Uwch Gymhorthydd : Mrs Netta Pritchard

Cymhorthyddion : Miss Cari Ann Jones

Miss Alaw Pugh

Dosbarth Blwyddyn 3 a 4:

Athrawes : Mrs Mererid Prys Owen

Cymhorthydd ADY:

Mrs Catherine Martin

Dosbarth Blwyddyn 5 a 6 :

Pennaeth / Athrawes : Mrs Carys Hughes

Cymhorthyddi ADY:

Mrs Dona Povey Jones

Goruchwylwraig Amser Cinio :

Mrs Ann Parry

Cogyddes : Mrs Ellen Jenkins

Cynorthwydd Cegin :

Gofalwr: Mr Eirion Morris Jones

Clerc : Mrs Jane Eleri Jones

Clerc Cinio : Ms Bev Atkin



Math o Ysgol

Ysgol Gynradd Sirol [Meithrin, Babanod a lau] yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gydaddysgol. Mae'n ysgol gymuned.

Safle'r Ysgol

Mae Ysgol Bro Plenydd yn sefyll ar briffordd yr A499 ym mhentref Y Ffor tua pedair milltir i'r gogledd o dref Pwllheli. Agorwyd yr ysgol yn 1912 fel un o'r ddwy 'open air school' a agorwyd yn yr hen Sir Gaernarfon ar y pryd. Cyn ei hagor addysgwyd plant yr ardal yn hen Ysgol Plasgwyn ar gyrion y pentref. Hyd yn ddiweddar roeddem yn rhannu y safle gyda Ysgol Arbennig Hafod Lon. Yn y flwyddyn 2000 ychwanegwyd estyniad newydd i'r ysgol a gynhwysai ystafell ddosbarth ychwanegol, toiled anabl a chyntedd helaeth. Yn yr un flwyddyn sicrhawyd lle chwarae caled i blant y Cam Sylfaen. Tu ol i'r ysgol mae maes chwarae cymunedol eang. Rhwng naw y bore a hanner awr wedi tri y prynhawn y ddwy ysgol yn unig sydd a'r hawl i'w ddefnyddio. Mae'r Corff Llywodraethol ynghyd a'r Gymdeithas Rieni yn cydweithio a'r ysgol er mwyn sicrhau fod yr amgylchfyd yn cefnogi a chyfoethogi y profiadau dysgu a gynigir yma. Maent hefyd yn gwrando ac yn ymateb i ddyheadau y plant ynglyn a'r ffordd ymlaen i wella yr amgylchfyd.



Oriau'r Ysgol

Disgyblion Meithrin: 9.00 am – 11.00 am

Babanod a lau:

Sesiwn y Bore 9.00 am – 12.00 pm

Egwyl y Bore 10.40 am – 11.00 am

Cinio 12.00 pm – 1.00 pm

Sesiwn y Prynhawn 1.00pm - 3.30pm

Egwyl y Prynhawn 2.15pm - 2.30pm



Danfôn a Chasglu Eich Plant

Bydd yr ysgol yn agored i'r plant o 8.40am bob bore. Ni chaniateir mynediad cyn yr amser hwn ac ni dderbynnir cyfrifoldeb am oruchwyliaeth.

Caniateir mynediad i blant sy'n mynychu y Clwb Brecwast o 8.10am hyd 8.30am.

Mae'r ysgol yn Ysgol Werdd ac mae Grwp Gwyrdd yr ysgol yn annog rhieni i gerdded i'r ysgol neu rannu ceir wrth ddanfôn a chasglu eu plant.

Oherwydd natur brysur y briffordd y tu allan i'r fynedfa mae Corff Llywodraethol yr ysgol mewn ymgynghoriad ag Adrannau Diogelwch a Thrafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn caniatáu i rieni ddefnyddio System Unffordd drwy iard Ysgol Bro Plenydd ac hen Ysgol Hafod Lon ar gyfer y pwrpas o ddanfôn a chasglu plant. Ar ddechrau pob blwyddyn ysgol bydd rhieni yn cael eu gwahodd i gytuno i reolau ac amodau y system cyn derbyn yr hawl i'w defnyddio.



Polisi Derbyn

Rhaid gwneud cais am fynediad i'r ysgol drwy gysylltu gydag Awdurdod Addysg Gwynedd. Er mwyn gwneud cais am le yn yr ysgol rhaid cyflwyno ceisiadau unai yn uniongyrchol i'r Cyngor neu drwy'r ysgol cyn y 1af o Fawrth bob blwyddyn. Bydd y ffurflenni cais pwrpasol ar gael yn yr ysgol drwy law y pennaeth neu gan y Gwasanaeth Ysgolion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd : www.gwynedd.gov.uk.

Derbynir plant i'r Flwyddyn Feithrin yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Bydd cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu ar gyfer darpar rieni iddynt gyfarfod staff y dosbarth a chael gweld yr ysgol yn ystod y tymor cyn i'w plant gychwyn.

Cyn i blant gychwyn yn llawn amser yn y Flwyddyn Derbyn yn yr ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed bydd rhaid i rieni gyflwyno ail gais i sylw yr Awdurdod. Ystyrir ceisiadau yn unol a chanllawiau sydd yn y polisi derbyn.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Trosglwyddir disgyblion yn 11 oed i Ysgol Glan y Mor. Datblygwyd cysylltiadau cryf gyda'r ysgol uwchradd a thrwy drefniadau pontio caiff disgyblion gyfleoedd i ymweld a'r ysgol ar sawl achlysur cyn trosglwyddo er mwyn ymgyswngu a'r staff addysgu a'r adeilad. Bydd Pennaeth Blwyddyn 7 yn ogystal ag athrawon iaith yn ymweld a Blwyddyn 6 yn Ysgol Bro Plenydd yn ystod y tymor cyn trosglwyddo.

Iechyd a Diogelwch

Cymerir pob gofal posibl am ddiogelwch plentyn tra byddent yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sal neu mewn damwain cysylltir a'r rhieni. Os bydd angen fe gysylltir a'r gwasanaethau brys neu byddwn yn cludo plentyn yn syth i Ysbyty Bryn Beryl neu Ysbyty Gwynedd. Byddwn yn gofyn i chi lenwi Ffurflen Caniatad Rhieni ar Gyfer Triniaeth Frys ar gychwyn blwyddyn ysgol newydd.



Rhoddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig a hynny ar ol derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig gan riant yn unol a pholisi yr ysgol. Caniateir i ddisgyblion gario eu hanadlyddion asthma eu hunain drwy gais ysgrifenedig gan riant. Mae'r ffurflenni perthnasol ar gael yn yr ysgol drwy law'r pennaeth ac mae copi ohonynt ynghyd a'r polisi ar wefan yr ysgol.

Ni chaniateir i ddisgybl adael yr ysgol cyn diwedd y diwrnod ysgol heb ganiatad. Os bydd angen gwneud newid i'r trefniadau arferol yna bydd angen i'r rhiant gysylltu a'r pennaeth neu'r athrawon perthnasol o flaen llaw.

Mae angen i bob ymwelydd a'r ysgol yn ystod y dydd ganu'r gloch wrth y brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol. Bydd disgwyl i ymwelwyr gofnodi yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac arwyddo allan ar ddiwedd yr ymweliad.

Mae system larwm tan ac atal lladron yn yr ysgol a brofir yn rheolaidd. Cynhelir ymarferion tan yn dymhorol. Y man ymgynnull mewn argyfwng yw Prif lard yr ysgol.

Mae gan yr ysgol berson dynodedig Cymorth Cyntaf yn ogystal a pherson a enwir sydd yn derbyn hyfforddiant yn rheolaidd. Mae bocsys Cymorth Cyntaf ar dri safle yn yr ysgol ac fe adolygir eu cynnwys yn rheolaidd.



Awyrgylch ac Ethos

Mae Ysgol Bro Plenydd yn ysgol hapus sy'n gwneud ei gorau yn barhaus i sicrhau fod pob disgybl yn teimlo'n aelod o deulu yr ysgol. Ymfalchiwn yn y ffaith fod y mwyafrif o ymwelwyr a'r ysgol yn cydnabod yr ymdeimlad cartrefol a'r awyrgylch gyfeillgar a disgybledig sy'n bodoli yma. Mae'r awyrgylch hapus a gweithgar yn seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal rhwng athrawon a disgyblion a disgyblion a'i gilydd. Mae hyn yn galluogi y disgyblion i ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu hunan hyder a hunan ddelwedd bositif wrth ymdrin ag ef eu hunain ac eraill.

NOD

Pwrpas yr ysgol yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau a fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu'n bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau. Bydd y sefyllfaoedd a'r adnoddau hyn yn darparu ar gyfer pob plentyn yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn cymhwyso i fod yn aelodau cyfryfol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelodau a fydd yn gallu cyfrannu a derbyn oddi wrthi gan fyw mewn hedd a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Golyga hyn:

- 1) Alluogi pob plentyn i ddatblygu'i hun i'w lawn bostensial.
- 2) Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
- 3) Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.



Amcanion Cyffredinol yr Ysgol:

- 1) Dylai pob plentyn deimlo'n hapus a diogel mewn awyrgylch gartrefol.
- 2) Dylai pob plentyn gael y cyfle i ddatblygu hyd eithaf ei allu ym mhob agwedd o'r cwricwlwm a'r Fframweithiau Sgiliau.
- 3) Dylai'r ysgol gyflwyno addysg sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i brofiad disgybl yn y gymuned.
- 4) Dylai'r ysgol hybu a datblygu dwyieithrwydd.
- 5) Dylai'r ysgol gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl.
- 6) Dylai'r ysgol hybu cysylltiad a chydweithrediad rhieni.
- 7) Dylai'r ysgol feithrin parch at eiddo ac at bersonau eraill.
- 8) Dylai'r ysgol ysgogi cysylltiad â'r gymuned.
- 9) Dylai'r ysgol bwysleisio ymddygiad, cwrteisi ac ymddangosiad.
- 10) Dylai'r ysgol feithrin athrawon ymroddgar a brwdfrydig.



Cytundeb Cartref Ysgol

Mae gennym 'Gytundeb Cartref/ Ysgol' – sy'n nodi yr hyn a ddisgwylir o ran ymrwymiad rhieni a disgyblion i gefnogi'r ysgol. Mae hefyd yn nodi ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gorau i rieni a disgyblion fel bod pob disgybl yn derbyn y cyfleoedd gorau posibl i ddysgu a datblygu. Dosberthir y cytundeb i gartref pob plentyn ar ddechrau'r flwyddyn addysgol. Mae copi ohono hefyd ar wefan yr ysgol.

Presenoldeb, Prydlondeb ac Absenoldebau

Yn Ysgol Bro Plenydd credwn fod presenoldeb a phrydlondeb yn eithriadol o bwysig ar gyfer tyfu a datblygu yn addysgol a chymdeithasol.

Os nad yw disgybl yn bresennol yn yr ysgol mae'n colli profiadau gwerthfawr, cyfleoedd i ddysgu a chyrraedd ei wir botensial .

Gweler ein pamffledyn ar gyfer rhieni ar ein gwefan : **Mae'n Bwysig Bod Yma !**

Disgwylir i bob plentyn gyrraedd yr ysgol erbyn 8.55am ar gyfer cychwyn y diwrnod ysgol am 9.00am.

Pan fydd plentyn yn sal neu'n methu a bod yn bresennol am resymau eraill disgwylir i chwi gysylltu a'r ysgol i'n hysbysu o hynny os gwelwch yn dda a llenwi'r ffurflen absenoldeb pan mae eich plentyn yn dychwelyd. Mae cyflenwad o lyfrynnau absenoldeb ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

Absenoldebau

Yn unol a chanllawiau Llywodraeth Cymru bydd yr ysgol yn cofnodi absenoldebau mewn dwy ffordd :

Absenoldebau awdurdodedig neu anawdurdodedig.

Absenoldebau awdudordedig yw absenoldebau a eglurwyd ac sy'n rhaid dilys yng ngolwg yr ysgol e.e salwch ac apwyntiadau meddygol. Caniateir hefyd hyd at 5 diwrnod ysgol o wyliau teuluol mewn un flwyddyn ysgol gyda chaniatad o leiaf 10 diwrnod ysgol o flaen llaw. Ystyrir pob cais yn unigol gan y Pennaeth.



Er hynny rydym yn annog rhieni yn gryf i beidio a thynnu eu plant allan yn ystod y flwyddyn ysgol gan fod parhad yn hollbwysig i sicrhau dysgu effeithlon a magu hyder .

Absenoldebau anawdudordedig yw absenoldebau heb eu hesbonio o gwbl neu absenoldebau heb resymau dilys iddynt yng ngolwg yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cofnodi presenoldeb yn electroneg. Mae'r cofnod ar gael yn ganolog a bydd yn cael ei archwilio yn rheolaidd gan y Swyddog Lles Addysg.

Bydd yr ysgol yn llythyru a rhieni plentyn sydd a phatrwm o bresenoldeb anfoddhaol . Gall y Swyddog Lles Addysg ymweld a chartrefi unrhyw rieni yr ystyrir cyfraddau presenoldeb eu plentyn yn bryder i'r ysgol a'r Awdurdod Addysg.

Cyfraddau Presenoldeb 2017—2018

Presenoldeb Blwyddyn : 96.2%

Genethod : 95.5%

Bechgyn : 97%

Absenoldebau a Awdurdodwyd – 3.5%



DYSGU AC ADDYSGU

Y Gymraeg

Y Gymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith y Flwyddyn Feithrin a'r Cam Sylfaen er mwyn i'r disgyblion ddatblygu sylfaen gadarn yn yr iaith. Dechreuir cyflwyno y Saesneg yn swyddogol ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn y Cam Sylfaen.

Cymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith Cyfnod Allweddol 2 hefyd gyda defnydd cynyddol o'r Saesneg fel a'r disgyblion ymlaen drwy'r ysgol fel eu bod erbyn diwedd Blwyddyn 6 yn gwbl ddwyieithog.

Credwn ei bod yn fraint i'n disgyblion gael cyfranogi o'u haddysg mewn dwy iaith.

Y Cwricwlwm

Cynllunir y gwersi a addysgir yn yr ysgol mewn perthynas â gofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, Y Fframweithiau Rhifedd, Llythrennedd a Digidol a'r Maes Llafur Addysg Grefyddol a gytunir yn lleol.

Nod yr ysgol yw cyflwyno cwricwlwm a fydd yn galluogi ein disgyblion:

- * ddatblygu'r sgiliau elfennol—siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu a rhifedd.
- * gael y cyfle i astudio a dehongli'r amgylchedd
- * ddatblygu agweddau cymdeithasol hapus ac iach
- * dderbyn profiadau cyfoethog ac amrywiol
- * Trin T.G.Ch yn hyderus.




Y Cyfnod Sylfaen yw enw y Cwricwlwm ar gyfer disgyblion Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2. Yn y Cyfnod Sylfaen rhoddir pwyslais ar ddysgu drwy chwarae. Byddwn yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu eu sgiliau drwy ysgogi gweithgareddau chwarae strwythuredig sy'n cael eu gwau i'r profiadau dysgu.

Cwricwlwm 2008 yw'r Cwricwlwm ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3—6. Mae'n cynnwys Mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth, Technoleg, y Dyniaethau (Hanes, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol) a'r celfyddydau mynegiannol (Celf, Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol).

Cynllunir gwersi y Cam Sylfaen a CA2 ar y cyd â'r **Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Ddigidol**.

Defnyddir y **Fframwaith Sgiliau** ar gyfer disgwyr 3—19 oed sy'n anstatudol i gynllunio datblygiad sgiliau meddwl. Mae gwybodaeth bellach am y Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd ar wefan yr ysgol.

Gellir gweld holl dogfennaeth Cwricwlwm Ysgol Bro Plenydd yn yr ysgol drwy drefnu a'r Pennaeth.



Patrwm Gweithio

Gwneir pob ymdrech i sicrhau addysg er mwyn datblygu agweddau moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y paratodau addysgol yn wahaniaethol, eang a chytbwys. Er mwyn ymateb i'r gofynion uchod gweithredir trefniadaeth dosbarth hyblyg gyda gwaith yn cael ei ddarparu weithiau ar sail oedran. Dro arall ceir plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un flwyddyn ysgol yn cydweithio ar yr un dasg.

Bydd plant yn cael eu dysgu fel uned ddosbarth dan ofal un athro / athrawes.

Bydd y profiadau dysgu yn cael eu cynllunio yn fanwl ac yn strwythuredig gan sicrhau fod profiadau eang a chytbwys ar draws y cwricwlwm. Dilynir y dulliau thematig er mwyn rhoi profiadau traws gwricwlaidd, gyda'r bwriad o gynnig addysg plentyn can-olig.

Cynhelir awr lythrennedd a rhifedd yn ddyddiol yn Ysgol Bro Plenydd.



Rydym yn cael
hwyl



yn yr haul



Y Cam Sylfaen

Mae'r cyfnod sylfaen yn rhoi pwyslais mawr ar ddatbygu'r plentyn cyfan drwy hybu sgiliau a dealltwriaeth, lles personol, cymdeithasol ac emosiynol, corfforol a deal-lusol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwylsais mawr ar blant yn dysgu drwy wneud. Drwy 'chwarae' gyda syniadau, arbrofi, cymryd risgiau, datrys problemau a gwneud pederfyniadau unigol, mewn grwpiau bach a mawr bydd y plant yn ymarfer ac atgyfnerthu eu dysgu. Gwneir hyn mewn amgylcheddau dan do ac awyr agored sy'n llawn hwyl, yn gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel i hybu chwilfrydedd naturiol plant i archwilio a dysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Mae amgylchedd y Cyfnod Sylfaen yn hybu sgiliau darganfod ac annibynnuaeth.



DATBLYGIAD PERSONOL, CYMDEITHASOL A LLES

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen. Mae'r maes yn canolbwyntio ar y plant yn dysgu amdanynt eu hunain, a'u perthynas gyda phlant ac oedolion eraill. Anogir hwy i ddatblygu eu hunanbarch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol. Mae'r Cam Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, i ddathlu gwahanol ddiwylliannau a chynorthwyo plant i adnabod ac ennill ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant eu hunain ac eraill. Cefnogir y disgyblion i ddod yn feddylwyr a dysgwyr hyderus ac annibynnol.



SGILIAU IAITH, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar y disgyblion yn cael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau ieithyddol. Mae eu sgiliau'n datblygu drwy siarad, cyfathrebu a gwrando. Anogir hwy i gyfathrebu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau ac ailadrodd profiadau. Bydd rhai disgyblion yn cyfathrebu drwy ddulliau ar wahân i siarad. Mae'r disgyblion yn cyfeirio at eu bwriadau drwy ofyn cwestiynau, mynegi barn, adweithio i sefyllfaoedd a gwneud dewisiadau drwy amrywiaeth o gyfryngau. Anogir hwy i wrando ar eraill ac ymateb iddynt. Maent yn cael cyfleoedd i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen, yn deall confensiynau argraffu a llyfrau a rhoddir iddynt ystod eang o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau ac ysgrifennu. Defnyddir profiadau llafar y disgyblion i ddatblygu eu sgiliau darllen. Maent yn gwrando ar ystod o ysgogiadau, yn cynnwys deunyddiau clyweledol a meddalwedd rhyngweithiol T.G.Ch.



DATBLYGIAD MATHEMATEGOL

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg trwy weithgareddau llafar, ymarferol a chwarae gyda'r pwyslais ar ddatrys problemau. Maent yn defnyddio rhifau yn eu gweithgareddau dyddiol ac yn datblygu ystod o ddulliau hyblyg ar gyfer gweithio'n ymenyddiol gyda rhif, er mwyn datrys problemau o amrywiaeth o gyddestunau, gan symud i ddefnyddio dulliau mwy ffurfiol o weithio a chofnodi pan fyddant yn barod yn ddatblygiadol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o fesurau, ymchwilio i briodweddau siâpiau ac yn trefnu, cyfateb, dilyniannu a chymharu gwrthrychau a chreu patrymau a pherthynas.

Maent yn defnyddio iaith fathemategol briodol i esbonio'u rhesymu. Datblygir sgiliau drwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau ysgogol ac ymarferol sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y disgyblion. Cant gyfle i gyflwyno eu gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn ymarferol, ffurfiol a chreadigol



GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH O'R BYD

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn dysgu drwy ymholi ac ymchwilio. Rhoddir profiadau i blant sy'n cynyddu eu chwilfrydedd am y byd o'u hamgylch a dechrau deall digwyddiadau, pobl a lleoedd y gorffennol, pethau byw a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud. Gan ddefnyddio pob un o'u synhwyrau maent yn dysgu drwy archwilio, ymholi, arbrofi, gofyn cwestiynau a cheisio dod o hyd i atebion. Maent yn dysgu arddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch tuag at bopeth byw a'r amgylchedd. Maent yn dysgu mynegi eu syniadau, eu barn a'u teimladau eu hunain, gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd.



DATBLYGIAD CREADIGOL

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu ar eu dychymyg a'u creadigrwydd drwy'r cwricwlwm. Ysgogir eu chwilfrydedd naturiol a'u tueddiad i ddysgu gan brofiadau synhwyraidd bob dydd. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol mewn, celf, crefft, cynllunio, cerddoriaeth, dawns a symudiad.



DATBLYGU'R GYMRAEG: DWYIEITHRWYDD AC AML-DDIWYLLIANNOL

Ni fydd yn rhaid i ysgolion sydd ar hyn o bryd yn datblygu 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' drwy gyfrwng y Gymraeg ad-dysgu'r elfen ddwyieithog o'r Fframwaith ond mae'r plant yn cael cyfle-oedd i ddysgu am ddiwyllïannau ac arferion gwahanol yn y byd a dysgu parchu eraill



DATBLYGIAD CORFFOROL

Mae ddatblygiad corfforol y plant ac annog eu brwdfrydedd a'u hegni ar gyfer symud yn cael ei hybu'n barhaus drwy eu cynorthwyo i ddefnyddio'u cyrff yn effeithlon, drwy an-nog ymwybyddiaeth ofodol, cydbwysedd, rheoli a chydlynw a datblygu sgiliau symudol a llawdriniol. Anogir y disgyblion i fwynhau gweithgaredd corfforol a chysylltir eu synnwyr datblygiadol o hunaniaeth yn agos â'u hunan-ddelwedd, eu hunan-werth a'u hyder. Cyflwynir i'r disgyblion gysyniadau iechyd, hylendid a diogelwch a phwysigrwydd diet, gorffwys, cwsg ac ymarfer corff.



Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 ar gyfer Cyfnod Allweddol 2

Yng Nghyfnod Allweddol 2 [7—11 oed] bydd y plant yn adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn y Cam Sylfaen drwy ddilyn Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, Y Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd, Y Fframwaith Ddigidol a'r Fframwaith Sgiliau.

Iaith : Y Gymraeg a'r Saesneg

Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu

Iaith yw sylfaen dysg bob plentyn. Heb-
ddi ni all wneud synnwyr o'r byd o'i
gwmpas nag ymateb i'w brofiadau.

Ein nod yw meithrin agwedd bositif a
chadarnhaol at iaith ym mhob plentyn fel y gall ei
defnyddio yn gynyddol hyderus a chywir wrth siar-
ad, gwrando, darllen ac ysgrifennu.

Byddwn yn cyflwyno plentyn i'r traddodiad
llenyddol Cymreig a Saesneg yn ei ffurfiau amry-
wiol er mwyn meithrin diddordeb a phleser a fydd
gobeithio yn parhau oes.

Gwrando a Siarad

Byddwn yn datblygu gallu plentyn i wrando mewn
sefyllfa dorfol, fel rhan o grwp ac fel unigolyn .
Credwn fod hon yn sgil werthfawr a phwysig i'w
ddatblygu mewn plentyn. Dim ond drwy wrando yn
ofalus y daw i ddeall a dysgu. Mae gwrando yn
gallu rhoi pleser a mwynhad ac yn ein helpu i
ymateb yn gynyddol ddeallus a chreadigol i'r byd
o'n cwmpas.



Ein nod yw meithrin plentyn i fod yn gynyddol gyfforddus a hyderus wrth siarad ym mhob sefyllfa. Rhown bwyslais ar siarad yn glir, dealladwy a chywir. Ceisir hefyd ddatblygu ymwybyddiaeth mewn plentyn o'r iaith gywir a phridol i'w defnyddio wrth ymateb mewn amrywiol sefyllfaoedd.




Darllen

Dyma sgil sy'n gwbl greiddiol i ddatblygiad pob un ohonom. Ein nod yn Ysgol Bro Plenydd yw yn gyn-
taf greu darllenwr o bob plentyn fel ei fod yn mwyn-
hau darllen o ran pleser a diddanwch. Byddwn
hefyd yn meithrin plentyn i fod yn ddarllenwr cywir
a deallus fel ei fod yn gallu defnyddio'r sgil i gasglu
gwybodaeth a dyfnhau ei ddealltwriaeth o'r
byd mae'n byw ynddo. Datblygir hefyd allu y
plentyn i ymateb i agweddau o destunau yn
feirniadol.

Ysgrifennu

Byddwn yn rhoi cyfleoedd i blentyn
ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth eang
o brofiadau a sefyllfaoedd. Bydd plentyn yn
datblygu ei sgil o ysgrifennu yn greadigol a ffeithi-
ol i wahanol bwrpas. Addysgir plentyn am y gwa-
hanol ffurfiau ysgrifennu a'u nodweddion gan
feithrin ei sgil i allu dewis y cyfrwng priodol ar
gyfer ysgrifennu. Datblygir gallu plentyn i
ysgrifennu yn gynyddol gywir fel yr a ar ei daith
drwy'r ysgol.



Mathemateg / Rhifedd

Sgiliau: ymresymu rhifol

sgiliau rhif, sgiliau mesur

sgiliau geometreg, sgiliau algebra

Sgiliau data



Mae defnyddio sgiliau mathemateg yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd ac mae cysyniadau mathemategol i'w gweld ym mhobman yn y byd o'n cwmpas.

Ein nod yn Ysgol Bro Plenydd yw meithrin mwynhad at Fathemateg ym mhob plentyn ac agwedd bositif ac iach tuag at y pwnc.

Mae datblygu strategaethau meddwl clir, defnyddio iaith fathemategol i egluro a thrafod a'r gallu i resymegu yn hanfodion y pwnc. Ein nod ydyw y bydd gallu plentyn i wneud hynny yn hyderus a rhwydd yn cynyddu fel yr a ar ei daith drwy'r ysgol.

Y Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd

Y mae'r Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd yn statudol yn ysgolion Cymru ers Medi 2014 gyda asesu cynnydd plentyn yn erbyn sgiliau y Fframwaith yn statudol o Fedi 2015.

Bydd pob blwyddyn drwy'r ysgol yn astudio y Fframwaith ochr yn ochr a'r Cwricwlwm. Mae gwybodaeth gynhwysfawr am y Fframwaith yn ogystal a chopi ohoni ar wefan Dysgu Cymru.

Mae pamffled gwybodaeth yr ysgol am Y Fframwaith i'w chael ar ein gwefan.

Gwyddoniaeth

Sgiliau: Cyfathrebu, Ymholiad—cynllunio, datblygu a myfyrio

Ystod: Cyd-ddibyniaeth organebau, Y Ddaear gynaliadwy, Sut mae pethau'n gweithio

Mae Gwyddoniaeth o gwmpas y plentyn ym mhobman. Yn ystod ei gyfnod yn Ysgol Bro Plenydd datblygir sgiliau ymchwiliol plentyn drwy brofiadau a fydd yn gofyn iddo arsylwi, rhagfynegi ac arbrofi.

Byddwn yn anelu at feithrin ffyrdd o feddwl clir a rhesymegol fel bod plentyn yn gallu cynllunio a dod i gasgliadau yn llwyddiannus.

Drwy themau amrywiol bydd dealltwriaeth y plentyn o 'r canlynol yn dyfnhau :

pethau byw a phrosesau bywyd

sut mae pethau'n gweithio yn y byd o'i gwmpas



Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Sgiliau: Darganfod a dadansoddi gwybodaeth, Creu a throsglwyddo

Dyma bwnc sy'n datblygu ar gyflymder aruthrol. Mae'r datblygiadau diweddar yn galluogi plentyn i fod mewn cyswllt a'i fyd yn barhaus. Yn yr ysgol byddwn yn anelu at ddatblygu y sgiliau uchod yn drawsgwricwlaidd. Mae TGCh fel Llythrennedd, Rhifedd a Meddwl yn sgiliau a ellir eu datblygu drwy gyfrwng bob pwnc yn y cwricwlwm.

Y Dyniaethau :

Addysg Grefyddol

Sgiliau: Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, Archwilio creadodau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol, Mynegi ymatebion personol

Ystod: Y byd -dechreuad a phwrpas bywyd, y byd naturiol a phethau byw

Profiad dynol- hunaniaeth ddynol, ystyr a phwrpas bywyd, perthyn, awdurdod a dylanwad, perhwasoedd a chyfrifoldeb, taith bywyd .Chwilio am ystyr— anfaterol / ysbrydolgybodaeth a phrofiad a'r anfaterol / ysbrydol

Er nad yw'r ysgol yn dal cyswllt uniongyrchol ag unrhyw enwad , y ffydd Gristnogol yw sail cwrs Addysg Grefyddol yr ysgol.

Cyflwynir Addysg Grefyddol yn Ysgol Bro Plenydd yn unol a Maes Llafur Cytunedig yr Awdurdod Addysg Lleol. Ceisia Addysg Grefyddol yn yr ysgol wneud plant yn ymwybodol o'r cefndir crefyddol a 'r safonau derbyniol o ran ymddygiad a moesoldeb yn y wlad hon .

Mae datblygu gwybodaeth am grefyddau a chydabod pwysigrwydd crefydd yn mywydau pobl yn helpu datblygu goddefgarwch a pharch a dylai helpu feithrin agweddau cyfrifol yn y plant o fewn eu cymdeithas eu hunain a thuag at y byd yn eangach. Fel y caniateir o dan y Ddeddf Addysg, gall y rhieni hynny sy'n gwrthwynebu i'w plant gymryd rhan yn y gwasanaethau neu yn y gwersi Addysg Grefyddol drefnu gyda'r Pennaeth iddynt gael eu hesgusodi rhag cymryd rhan ynddynt



Cyd Addoli

Cynhelir gwasanaeth dyddiol yn unol a gofynion Deddf Addysg 1986. Bydd gwasanaeth ysgol gyfan yn cael ei gynnal yn y Llyfrgell a chynhelir gwasanaethau yn y dosbarthiadau hefyd. Mae'r gwasanaeth hwn yn cyfrannu at ethos ac awyrgylch yr ysgol. Ceisir sicrhau fod y gwasanaethau yn berthnasol i fywyd pob dydd y plant ac ei fod yn fodd i ddatblygu agweddau cadarnhaol yn ymwneud plant a'i gilydd megis empathi, gofal a pharch. Pwysleisir y grefydd Gristnogol yn bennaf ond fe gyflwynir hefyd wybodaeth am grefyddau eraill y byd.



Hanes

Sgiliau:

Ymwybyddiaeth gronolegol,

Gwybodaeth a dealltwriaeth hanseyddol,

Dehongliadau o hanes, Ymholi hanesyddol, Trefnu a chyfathrebu

Ystod: Astudio, Cynnal, Gofyn ac ateb cwestiynau

Mae gwybod am y gorffennol yn helpu plentyn i wneud synnwyr o'r presennol. Addysgir Hanes drwy themau amrywiol ac anelir at roi profiadau diddorol a phleserus. Yn eu gwersi hanes bydd y plant yn dysgu am bobl, digwyddiadau a lleoedd arwyddocaol, o'r gorffennol. Bydd plentyn yn deall fod rhai pethau wedi newid a phethau eraill wedi aros yr un fath. Cant gyfle i ddysgu ymhle i ddarganfod tystiolaeth am y gorffennol ac i gymharu cyfnodau o fewn hanes.

Daearyddiaeth

Sgiliau: Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau, Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau, Ymchwilio, Cyfathrebu

Ystod: Astudio, Gwneud, Gofyn ac ateb cwestiynau, Cyfathrebu

Drwy waith ymchwil yn yr ystafell ddosbarth a gwaith maes bydd y plentyn yn datblygu diddordeb byw mewn lleoedd ac yn y byd o'u cwmpas . Byddent yn astudio eu hardal eu hunain yng Nghymru, y byd ehangach , amgylcheddau amrywiol a digwyddiadau daearyddol yn y newyddion,. Daw y plant fel dinasyddion byd eang i ddatblygu cydwybod ynglyn a'u hamgylchedd, a phwysigrwydd cynaliadwyedd.

Y Celfyddydau : Celf / Cerddoriaeth / Drama a Symud

Credwn fod gan y Celfyddydau ran bwysig iawn i'w chwarae yn natblygiad pob plentyn. Ceir cyfle yn Ysgol Bro Plenydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau Celf, Cerddoriaeth, Drama a Symud.

Celf

Sgiliau: Deall, Ymchwilio, Gwneud

Ystod: Deall, Ymchwilio, Gwneud

Mae plant yn cael cyfle i astudio â gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, cynnal ymchwiliadau creadigol a gwneud gwaith celfyddydol eu hunain. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a phrosesau, maent yn cyfathrebu eu syniadau a'u teimladau drwy gyfrwng iaith weledol, gyffyrddol a synhwyraidd. Rydym yn credu bod archwilio, gwerthfawrogi a mwynhau celf yn cyfoethogi bywydau dysgwyr.



Cerddoriaeth

CERDDORIAETH

Sgiliau: Perfformio, Cyfansoddi, Gwerthuso

Ystod: Perfformio, Cyfansoddi, Gwerthuso

Bydd y plant yn datblygu sgiliau canu, chwarae offerynnau ac ymarfer; creu cerddoriaeth yn fyrfyfyr, cyfansoddi a threfnu cerddoriaeth; a gwrando ar gerddoriaeth a'i gwerthuso. Mae'r plant yn dysgu gwella eu gwaith perfformio, cyfansoddi a gwerthuso trwy ddatblygu a defnyddio'umeddwl a'u sgiliau cyfathrebu.



Gwersi Offerynnol

Mae'r ysgol yn cynnig gwersi offerynnol telyn a phres gan Gwmni Cerddoriaeth William Mathias. Bydd athrawon teithiol yn ymweld a'r ysgol yn wythnosol i gynnal gwersi. Mae telyn yn yr ysgol ac mae modd llogi un ar gyfer pwrpas ymarfer trwy gynllun arbennig. Bydd y plant sy'n derbyn gwersi pres yn gallu llogi offerynnau drwy Gwmni William Mathias. Bydd yr ysgol yn talu cyfran helaeth costau y gwersi a gofynir am gyfraniad o £30 y tymor ar gyfer pob plentyn.

Cynigir gwersi i blant Cyfnod Allweddol 2 yn unig. Bydd plant yn gwneud cynydd da ac mae modd ymuno a cherddorfa y cynllun sy'n ymarfer yn Ysgol Glan y Mor, Pwllheli. Mae ymarfer rheolaidd gartref yn hanfodol !

Dylunio a Thechnoleg

Sgiliau: Dylunio, Gwneud- bwyd, defnyddiau hyblyg ac anhyblyg, systemau a rheoli.

Bydd disgyblion yn cael cyfle i wireddeu a chynrychioli syniadau o'u dychymyg drwy ddarluniau, cynlluniau, modelau, arddangosfeydd ac efelychiadau cyfrifiadurol. Proffiad cyffrous i bob plentyn yw gweld ei syniad cychwynnol yn datblygu a thyfu i'w benllanw.



Fframwaith Sgiliau Meddwl

Mae 'Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' yn anstatudol ac wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, a TGCh i ddysgwyr 3 - 19 oed.

Datblygu'r Meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio.

Fframwaith Ddigidol

Mae'r Fframwaith Gymhwysedd Ddigidol wedi bod yn weithredol mewn ysgolion yng Nghymru ers Medi 2016 pan ofynodd y llywodraeth i ysgolion ddatblygu dealltwriaeth ohoni a dechrau cynllunio ar ei chyfer. O fis Medi 2017 ymlaen bydd disgwyl i ysgolion ei integreiddio i'r cricwlwm. Mae gwybodaeth gymhwysfawr ar wefan Dysgu Cymru ynglyn a'r Fframwaith Ddigidol.

Mar'r Fframwaith yn canolbwyntio ar sgiliau digidol y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o bynciau.

Addysg Gorfforol

Sgiliau: Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles, Gweithgareddau

creadigol, Gweithgareddau antur, Gweithgareddau cystadleuol

Ystod: Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles, Gweithgareddau

creadigol, Gweithgareddau antur, Gweithgareddau cystadleuol

Mae Addysg Gorfforol yn bwysig er datblygu hyder a mwynhad mewn plant tuag at weithgareddau corfforol. Y gobaith ydyw y bydd arferiad oes o weithgarwch corfforol rheolaidd yn cychwyn yn yr ysgol. Bydd hyn yn arwain at iechyd a ffitrwydd yn ogystal a chyfle i gymdeithasu drwy weithgareddau.

Anelir at gynnig 1 awr yr wythnos o weithgarwch Addysg Gorfforol yn y Cam Sylfaen a thua 1 awr a chwarter yng CA2.

Bydd gwersi gymnasteg y CS yn digwydd yn Neuadd yr Ysgol ac yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor ar gyfer CA2.

Cynnigir gwersi nofio ar gyfer CA2 yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor. Gofynnir am gyfraniad tuag at gostau y bws i Bwllheli yn wythnosol.

Yn yr ysgol cynnigir gwersi gemau, athletau a chyfeiriannu. Mae aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cyfeiriannu ac mae map cyfeiriannu ar gyfer yr ysgol er mwyn datblygu gweithgareddau awyr agored a datrys problemau.



Ymdrechir hefyd i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau chwaraeon, megis gemau pêl-droed a phelrwyd, sialensau sgipio, Clwb Ffitwydd a hoci.

Bydd plant CA2 yn cyfarfod gweddill plant y dalgylch yn dymhorol yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor neu yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli ar gyfer chwaraeon a mabolgampau cystadleuol.

Mae Clwb Cerdded Plenydd yn ceisio cynnal dwy daith gerdded y flwyddyn mewn lleoliadau amrywiol er mwyn i'r plant gael mwynhau y profiad o gerdded yn estynedig yn yr awyr agored .

Bydd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ymweld a Chanolfan Y Beacon yng Nghaernarfon ar gyfer sesiwn ddringo.

Yn ogystal bydd Clybiau ar ol Ysgol yn cynnig sesiynnau chwaraeon amrywiol megis peldroed a phelrwyd.



Dysgu ar Draws y Cwricwlwm

Yng Nghyfnod Allweddol 2 dylid hybu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o Gymru, ac o'u datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Y Cwricwlwm Cymreig 7 – 14 oed Dylai dysgwyr 7— 14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.



Addysg Rhyw

Fel rhan o'n gwaith Addysg Bersonol a Cymdeithasol rydym yn cyflwyno Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasedd drwy'r ysgol. Mae'r gwaith a gyflwynir yn cyd-fynd â Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol APADGOS, 2008 ac â Chynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Yn unol â pholisi'r ysgol, byddwn yn ychwanegu yn gyfrifol ac yn ddatblygiadol at wybodaeth a phrofiadau plant am eu cyrff a'u perthynas â'r byd o'u cwmpas. Trwy wneud hyn bydd disgyblion yn gallu delio yn well â glasoed gan ddatblygu sgiliau a hunan-barch i dyfu yn hyderus.

Bydd yr ysgol yn defnyddio DVD Sense a phe cyn Tyfu Ysgolion Iach Gwynedd.

Mae copi o bolisi Addysg Rhyw yr ysgol i'w gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan ac mae taflen wybodaeth i rieni ar gael hefyd yn egluro yr hyn a gyflwynir i blant yn y gwahanol flynyddoedd

Mae gan rieni hawl i eithrio eu plant o'r agweddau hynny o Addysg Rhyw sydd ddim yn rhan o'r Cwricwlwm Gwyddoniaeth. Nid oes raid i rieni egluro pam eu bod yn eithrio eu plentyn.

Sut Ddysgwr yw Eich Plentyn ?

Yn Ysgol Bro Plenydd rydym yn ceisio cynnig safon uchel o addysg i bob plentyn. Mae ein disgwyliadau yn uchel o'n staff a'n plant.

Nid dysgu ffeithiau yn unig yw addysg. Fel rhan o'u dysgu mae'r plant yn dod i adnabod eu hunain fel dysgwyr. . Rydym ym meithrin plant i ddod i ddeall sut mae nhw'n dysgu.

Mae'r plant yn dod yn ymwybodol o'u cryfderau a sut mae nhw'n dysgu orau , gwybodaeth sydd yn bwysig iddynt fel dysgwyr gydol oes.



Gwaith Cartref

Rhoddir gwaith cartref yn y Cam Sylfaen.

Bydd y gwaith cartref yn seiledig ar hanfodion dysgu fel arfer ac o bryd i'w gilydd gwaith ymchwiliol sydd yn codi o'r thema neu efallai waith creadigol.

Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd i blant CA2.

Bydd gwaith cartref yn cynnwys tasgau ym meysydd rhifedd a llythrennedd gan amlaf ble gosodir tasgau i gydfynd â'r gwaith a wneir yn y dosbarth ar y pryd neu ar waith a wnaethpwyd yn barod er mwyn ymarfer a chadw cysyniadau yn fyw yng nghof y plentyn a chefnogi a hyrwyddo sgiliau.

Bydd y plant yn gweithio ar thema arbennig yn y dosbarth ac yn achlysurol, gosodir gwaith ymchwil i'r plentyn wneud gartref ar wahanol agweddau o'r thema. Pan ddigwydd hynny, gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.

Darllen

Anogir pob plentyn yn yr ysgol i ddod yn ddarllenwr. Yn y Cam Sylfaen bydd y Ffeil Ddarllen yn mynd adref yn rheolaidd bob wythnos er mwyn ymarfer a rhannu eu darllen gyda'u rhieni.

Anogir plant CA2 i fenthylg llyfrau o 'r ysgol i'w darllen yn rheolaidd a disgwylir iddynt gadw cofnod o'u darllen.

Gofynnir i rieni annog eu plant i ddarllen yn gyson ac i sicrhau eu bod yn gwneud eu gwaith cartref yn brydlon ac i orau eu gallu.



Clybiau Darllen

Caiff bob plentyn gyfle i ymuno a chlwb llyfrau y Cyngor Llyfrau ac i dderbyn cylchgronnau Cip ac WCW.

Asesu

Bydd yr ysgol yn asesu pob plentyn yn barhaus yn eu cynnydd yn unol a Pholisi Asesu yr ysgol. Ar ddiwedd y Cam Sylfaen a CA2 dyfernir deilliant / lefel i bob plentyn yn y pynciau craidd. Ar ddiwedd pob blwyddyn addysgol cyflwynir adroddiad gynhwysfawr ar gynnydd pob plentyn.

Asesu ar Gyfer Dysgu

Mae Asesu ar Gyfer Dysgu yn digwydd yn barhaus ac yn rhoi gwybodaeth newydd yn barhaus sydd yn help i'r athrawes i gynllunio llwybr dysgu nesaf y plentyn. Bydd y wybodaeth yma yn dod gan yr athro wrth asesu darn o waith plentyn neu gan y plentyn wrth iddo asesu ei waith ei hun neu gan blentyn neu grwp arall sy'n asesu gwaith y plentyn.



Meddylfryd o Dwf

Yn ystod 2017—2018 bu Ysgol Bro Plenydd yn aelod o brosiect Shirley Clarke, Exceeding expectations through formative assessment.

Yn dilyn hynny mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth ar ddefnyddio strategaethau amrywiol i ddatblygu diwylliant o ddysgu ble mae dysgwyr yn cefnogi dysgu ei gilydd ac yn dathlu llwyddiant dysgu ei gilydd.

Mae'r ysgol yn meithrin dysgwyr i ddefnyddio pwerau dysgu i lwyddo yn eu dysgu ac i ddeall yr hyn maent yn ei ddysgu, pam eu bod yn ei ddysgu ac sut i ddysgu yn llwyddiannus.



Cwricwlwm i Gymru

Bydd y Cwricwlwm Newydd i Gymru ar gael o Haf 2019 ymlaen ac yn weithredol ym mhob ysgol o 2022.

Mae mwy o wybodaeth i'w gael yn www.llyw.cymru/cwricwlwmigymru

Mae 4 diben i'r Cwricwlwm Newydd sef meithrin dysgwyr :

Sy'n uchelgeisiol a galluog

Sy'n gyfranwyr mentrus a chreadigol

Sy'n unigolion iach a Hyderus

Sy'n ddinasyddion gwybodus ac egwyddorol

Bydd y dibenion uchod yn cael eu haddysgu drwy 6 maes dysgwa phrofiad :

Celfyddydau Mynegianol

Iechyd a Lles

Y Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn Ysgol Bro Plenydd fel ym mhob ysgol arall, mae dysgwyr sydd ag anghenion arbennig. Nid yw hynny yn angenrheidiol yn golygu nad ydyw'r plant hyn yn galluog, neu fod eu problem yn un barhaol. Gall nifer o ffactorau effeithio ar ddatblygiad addysgol plentyn, ac mae'n bwysig i rieni ddweud wrthym ni am unrhyw beth a allai effeithio ar ddatblygiad addysg eu plant. Mae gan blant hynod o alluog Anghenion Arbennig yn ogystal, ac mae'r ysgol yn ymwybodol o hynny hefyd.



Mae Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol wedi ei sefydlu ar y Côd Ymarfer Cenedlaethol.

Y Camau :

Os yw athro o'r farn bod gan blentyn broblemau, neu yn alluog iawn yna bydd yn canfod ffyrdd o gynorthwyo'r plentyn. Bydd yr athro yn cael sgwrs gyda'r rhieni.

Os yw'r athro o'r farn nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd yna bydd yn trafod y problemau gyda'r Cydgysylltydd Anghenion Arbennig - sef y person yn yr ysgol sy'n sicrhau bod y cynllun yn gweithio'n effeithiol. Yn yr ysgol hon, y cyd-gysylltwyr yw **Miss Catrin Mair Parry**.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r rhiant, bydd y plentyn yn cael ei osod ar gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol. Bydd yr ysgol yn llunio Proffil un Tudalen ar gyfer pob plentyn yn yr ysgol. Os gosodir plentyn ar Gam Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yna llunir CAU [Cynllun Addysg Unigol] ar ei gyfer.

Mae hwn yn gam cadarnhaol wrth i'r ysgol a'r rhieni gydweithio i gynorthwyo'r plentyn. Edrychir ar faint o gynnydd a wnaed ar ôl cyfnod. Os bydd y problemau'n lleihau, bydd enw'r plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr. Gelwir y cam hwn yn Gweithredu Ysgol.

Os deil problemau, gallai'r rhieni a'r ysgol benderfynu rhoi'r plentyn ar y cam nesaf; Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Nodir hyn ar y gofrestr. Golyga hyn bod yr ysgol yn ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg yn gofyn Cyngor ynghylch sut i gynorthwyo'r plentyn. Fel arfer, mae Athro Ymgynghorol Anghenion Arbennig neu Seicolegydd Addysgol yn gweld y plentyn. Gallai hyn olygu rhoi sylw ychwanegol i'r plentyn. Yn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae'r ysgol a'r rhieni eto'n llunio Cynllun Unigol arbennig ar gyfer y plentyn. Edrychir ar gynnydd ar ôl cyfnod. Os yw'r plentyn yn goresgyn y problemau, yna gellid gosod y plentyn yn ôl ar Gweithredu gan yr Ysgol neu hyd yn oed ei dynnu oddi ar y rhestr.

Os yw pawb sy'n ynghlwm yn teimlo bod angen cynnal asesiad manwl iawn o anawsterau'r plentyn, yna gellid penderfynu symud at Asesiad pellach. Ar y cam hwn, mae gan yr Awdurdod Addysg ddull manwl iawn o gasglu gwybodaeth ynghylch y plentyn. Efallai y bydd yr Awdurdod Addysg yn penderfynu darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y plentyn.



Trwy'r holl gamau hyn, gwahoddir y rhieni i drafod materion gyda'r ysgol gan ddarparu copïau o gynlluniau addysg unigol ar eu cyfer. Y nod bob amser yw bod yr ysgol a'r rhieni yn cydweithio i gy-northwyo'r plentyn.

Gellir cael golwg ar bolisi anghenion arbennig yr ysgol yn yr ysgol o ofyn i'r Pennaeth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch i'r Cyd Gysylltydd neu'r Pennaeth os gwelwch yn dda.



Polisi Iaith

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd .

Yr amcan yw datblygu gallu plant i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Bro Plenydd ac mae'r staff a'r disgyblion yn ymdrechu'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol.

Edrychwn ymlaen i groesawu rhieni y mae'r Gymraeg yn ddiethr iddynt i gyfranogi o'r diwylliant arbennig yma.

Gobeithiwn y byddwch yn parchu'r diwylliant ac yn ymfalchio bod eich plentyn yn cael cyfle i fod yn ran ohono gan y bydd yn cyfoethogi cymaint ar brofiadau dysgu eich plant. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, a byddwch yn derbyn gohebiaeth ddwyieithog o'r ysgol.



Pan ddaw plant newydd i'r ysgol nad ydynt yn gallu siarad y Gymraeg fe sicrheir eu bod yn hapus a chartrefol cyn gwneud popeth posibl i ddysgu'r Gymraeg iddynt, a gwneir hyn cyn gynted ag sydd bosibl er mwyn iddynt allu cymryd eu lle naturiol ym mywyd yr ysgol a'r gymdeithas. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i'r plentyn ymweld am dymor ag Uned Iaith Llanygybi, lle ceir darpariaeth ddwys a thrylwyr dan arweiniad arbenigol. Bydd trafndiaeth yn cael ei ddarparu i gludo'r plant o ddrws i ddrws.



Siarter Iaith Gwynedd

Gweithredir Siarter Iaith Gwynedd drwy holl ysgolion y Sir. Ei nod yw gwarchod y diwylliant dwy ieithog arbennig sy'n bodoli yma yng Ngwynedd. Mae pob ysgol wedi datblygu ei gweledigaeth parthed y Siarter ac wedi gweithio tuag at ei gwobrau : efydd, arian ac aur. Bydd Ysgol Bro Plenydd eleni yn parhau i geisio cadw y statws gwobr aur.



Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae Ysgol Bro Plenydd yn cynnig rhaglen o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys Yr Urdd, clybiau amrywiol ac ymweliadau yn ogystal a chefnogi Eisteddfod Gadeiriol Y Ffor.



Yr Urdd

Mae Adran yr Urdd yn bodoli yn Y Ffor ers blynyddoedd lawer. Bydd Adran yr Urdd y pentref yn cyfarfod yn Neuadd y Ganolfan Gymdeithasol ar brynhawniau lau yn syth ar ol oriau'r ysgol.

Yn ddiweddar mae pob plentyn sy'n aelod o'r Urdd wedi cael cyfle i gystadlu mewn gweithgareddau Celf a Chrefft, cystadlaethau llwyfan a chwaraeon.



Clybiau

Mae cyfle i blant ymuno a chlybiau amrywiol wedi oriau yr ysgol. Hyd yn hyn cynhaliwyd clybiau dawnsio gwerin, garddio, Ffrangeg, Sbaeneg, peldroed, rygbi a phelrwyd. Mae pob plentyn yn nau ddosbarth hynaf yr ysgol yn aelod o Glwb Cerdded Plenydd.



Ymweliadau

Bydd yr athrawon yn trefnu ymweliadau i gyfoethogi themau a astudir yn y dosbarth. Bydd dosbarth hynaf yr ysgol yn cael cyfle i ymweld a Phlas Tan y Bwlch, Maentwrog yn flynyddol ar ymweliad preswyl.



Eisteddfod Gadeiriol Y Ffor

Bydd plant yr ysgol yn cefnogi ein heisteddfod bentref drwy gystadlu yn yr Adran Gelf yn flynyddol ac yn y cystadlaethau canu a llefaru. Yng nghyfarfod hwyr yr eisteddfod bydd plant Blwyddyn 6 yn ffurfio gosgordd i gyfarch y bardd buddugol.

Polisi Codi Tal


Bydd yr ysgol yn gofyn am gyfraniadau tuag at gostau y bws sy'n mynd a'r plant i Ganolfan Hamdden Dwyfor ar gyfer gwersi gymnasteg a no-fio. Gofynnir hefyd am gyfraniadau tuag at gostau teithio ar gyfer ymweliadau addysgol neu gostau tocyn mynediad neu hyfforddiant . Bydd yr ysgol hefyd yn gofyn am gyfraniadau tuag at gostau gwersi offerynnol gan Gwmni Cerddoriaeth William Mathias.

Byddwn yn gyrru y wybodaeth berthnasol i rieni o flaen llaw. Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod pan fo rhieni yn pryderu am dalu unrhyw gostau.

Cyfle Cyfartal

Amcanir at gynnig cyfle cyfartal i holl ddisgyblion Ysgol Bro Plenydd. Teimlir na ddylai iaith, crefydd, oed, rhyw, gallu, cefndir, lliw croen nac unrhyw anabledd corfforol amharu ar gyfle plentyn i ymgymryd â chwricwlwm cyflawn yr ysgol a'i holl weithgareddau.

Dosbarthir plant i grwpiau yn ôl gallu ac oedran a chymysg o ran rhyw. Ceisir sicrhau cyfleoedd i bob plentyn o fewn pob pwnc cwricwlaidd drwy dasgau addas i'w gallu boed hynny yn unigol, mewn pâr neu grŵp.



Ystyriwn fod pob unigolyn yn gyfartal ac y dylid rhoi parch i bob un.

Ystyriwn fod gwahaniaethu ar sail iaith, rhyw, crefydd, cefndir, oed, lliw croen, gallu neu anabledd corfforol yn hollol annerbyniol.

Amcanwn i bob aelod o gymuned yr ysgol boed yn ddisgybl, aelod o staff, llywodraethwr neu riant geisio eu gorau i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb yn yr ysgol drwy gyfrannu'n bersonol at geisio creu amgylchfyd hapus a gofalgar sy'n ennyn hunan barch a pharch at eraill.

Amcanwn at osgoi unrhyw arfer o wahaniaethu lle na cheir cyfle cyfartal yng ngweinyddiad yr ysgol, yn y cwricwlwm addysgu ac yn gymdeithasol.

Cyfranogi

Mae Cyngor yr Ysgol yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion gyfrannu at yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol drwy roi barn a gwneud penderfyniadau. Drwy wrando ar lais y plentyn daw yr ysgol yn le hapusach. Mae'n fodd hefyd i'r staff addysgu a'r llywodraethwyr ddod i adnabod dyheadau y plant parthed eu hysgol.

Bydd y plant hefyd yn cael cyfleon i gyfranogi drwy : Y Grwp Bwyta'n Iach

Y Grwp Masnach Deg Y Criw Ffit Y Grwp Gwyrdd Y Criw Iaith Y Grwp Maeth
Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd

Masnach Deg

Mae'r ysgol yn cefnogi, yn hyrwyddo ac yn defnyddio cynnyrch Masnach deg pan yn bosibl. Gellir gweld copi llawn o'r polisi yn yr ysgol



Ysgol Iach / Ysgol Werdd

Mae'r ysgol yn perthyn i gynlluniau Ysgolion Iach ac Ysgolion Eco, Gwynedd.

Drwy weithgareddau y ddau gynllun daw y plant i sylweddoli pwysigrwydd bwyta'n iach a datblygu ffitrwydd yn ogystal a materion yn ymwneud a chadwraeth, ail gylchu ac arbed ynni.

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithio tuag at wobwr Eco Ysgolion a Cham 5 y Cynllun Ysgolion Iach

Rheolau Ymddygiad Ysgol Bro Plenydd

Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn gall, gyfrifol a chwrtais tra ma'n yr ysgol.

Yn Ysgol Bro Plenydd disgwylir i bob plentyn:

annerch aelodau o'r staff gan ddefnyddio teitl,
e.e. Miss, Mrs, Mr, Anti

barchu iard a chae chwarae'r ysgol

roi ysbwriel yn y bin

barchu adeilad mewnol yr ysgol a'i holl adnoddau

barchu eiddo eu cyfoedion

glirio a chadw eu heiddo eu hunain ac adnoddau'r ysgol

ddangos parch a chwarteisi at oedolion [yr holl staff ac ymwelwyr]

barchu ei gilydd a dangos gofal a chydymdeimlad

siarad a llais tawel o fewn yr adeilad

cerdded o fewn yr adeilad

ymddwyn yn briodol yn yr ystafell fwyta

gwrando ac ufuddhau i orchmynion athrawon.

roi unrhyw arian neu rywbeth gwerthfawr yng ngofal aelod o'r staff addysgu



Ni chaniateir:

dwyn

bwllo

celwydd

rhegi

trais

ymladd

digwyleidd-dra

siarad ar draws

crwydro'r dosbarth yn ddiamcan

amharchu adnoddau'r ysgol

poenydio plant eraill

tarfu ar wersi/awydd cyfoedion i weithio

gadael ystafell heb ganiatâd athro/athrawes/
goruchwyliwr cinio

gadael safle'r ysgol heb ganiatâd y Pennaeth
rhedeg tu mewn i'r adeilad.

dod a theganau i'r ysgol heb ganiatâd

bwyta melysion na chreision yn ystod amseroedd
egwyl [croesewir ffrwythau]

Ar ddechrau pob blwyddyn ysgol bydd plant pob
dosbarth yn cyfarfod i greu rheolau y dosbarth ar
gyfer y flwyddyn. Mae magu hunan ddisgyblaeth yn
elfen bwysig o addysg yr ysgol.



Disgyblaeth

Ni all unrhyw ysgol weithredu'n effeithiol i sicrhau addysg o'r ansawdd orau a datblygiad addysgol a moesol heb ddisgyblaeth gadarn a theg.

Mae disgyblaeth yn gyfrifoldeb ar bob athro/athrawes yn yr ysgol hon. Sicrheir bod pob aelod o'r staff dysgu yn ymwybodol o ac yn coleddu'r un disgwyliadau a safon ymddygiad drwy'r ysgol a'u bod yn ymwybodol o reolau a disgwyliadau'r ysgol. Mae cefnogaeth a chydweithrediad rhieni ble bo disgyblaeth yn y cwestiwn yn hanfodol. Mae'n rhaid i blentyn sylweddoli fod yr ysgol a'r cartref yn coleddu'r un safonau a bod gennym ein dau ddisgwyliadau uchel.

Mae'r corff llywodraethu yn berchen ar y ddogfennaeth ganlynol parthed disgyblaeth:

Datganiad o Egwyddorion ynglyn ag Ethos a Chynnal Ymddygiad

Polisi Ymddygiad a Chynllun Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol

Polisi Disgyblaeth

Polisi Bwlio.

Yn unol ag argymhellion Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd mae Polisiau a Chynlluniau Ymddygiad a Disgyblaeth Ysgol Bro Plenydd wedi eu selio ar raglenni Incredible Years – C Webster Stratton



Polisi Gwrthfwlio

Yma'n Ysgol Bro Plenydd rydym yn credu fod gan bawb sydd yma yr hawl sylfaenol i dderbyn eu haddysg heb gael eu bychanu, eu gorthrymu a'u sarhau. Mae'r staff, a'r plant yn gweithio gyda'i gilydd i greu awyrgylch hapus, gofalgarg lle gall plant ddysgu'n braf. Ni dderbynnir bwllo o unrhyw fath. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i ddelio ag unrhyw achos, yn fuan ac yn effeithiol. Mae gennym bolisi Gwrth-fwlio ar gyfer ymateb i hyn.



Gofal Bugeiliol a Diogelu Plant

Y Pennaeth sy'n bennaf gyfrifol am drefniadaeth fugeiliol yr ysgol. Bydd pob plentyn yng ngofal eu-hathro dosbarth ond ceisia'r staff cyfan ddangos cyfrifoldeb ynglyn â lles holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae pob aelod o staff yn yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sydd yn ei gofal. Os ceir pryderon ynglyn ag esgeulustra neu gamdrin corfforol, emosiynol neu rywiol yna mae'n ddyletswydd ar y staff yn unol a Threfn Diogelu Plant y Sir i adrodd ar y mater wrth Gydgysylltydd Amddiffyn Plant yr Ysgol.

Gall y Cydgysylltydd ymgynghori a chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn hynny efallai y bydd yn rhaid i'r ysgol gyfeirio plentyn yn swyddogol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol a phrotocol a chanllawiau y Sir. Ni fydd bob amser oherwydd natur y cyhuddiadau yn briodol i drafod y mater gyda rhieni cyn cyfeirio plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT YR YSGOL

Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgelustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.



Pryderu am blentyn:

**Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn
Ysgol Bro Plenydd yw: Cyd Gysylltydd :**

Mrs Carys Hughes, Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor
Rhif ffon cyswllt : 01766 810 625

Ail-berson: Mrs Mererid Prys Owen , Ysgol
Bro Plenydd (01766 810 625)

**Person Dynodedig Amddiffyn Plant y Corff
Llywodraethol : Cadeirydd y Corff:** Dr Arfon
Williams, Ty'n Rhos Penarth, Chwilog,
Pwllheli

Rhif ffon cyswllt : 01766 810 465

**Drwy'r Tim Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau
Cymdeithasol:** Rhif Ffon Cyswllt :

01758 704 455

Person Cyswllt yn yr Awdurdod :

Mrs Delyth Griffiths—01286 682 056

**Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt Lly-
wodraethwr neu'r awdurdod os oes holiadau
sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn
gysylltiedig ô'r Pennaeth.**

Plant Mewn Gofal

Cefnogir a hyrwyddir cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg yn unol a pholisiau'r ysgol. Y person dynodedig yw'r Pennaeth.



Anabledd a Hygerchedd

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Gellir darllen cynnwys y cynllun drwy gysylltu gyda'r Pennaeth

Gwersi Nofio

Bydd blynyddoedd 2—6 yn derbyn gwersi nofio yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor ar foreau lau. yn ystod Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn. Mae'r ysgol yn talu am gael defnyddio'r ganolfan ac am yr hyfforddwyr. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o y plentyn y tymor i dalu am gostau'r bws. Ni ellir parhau â'r trefniant hwn heb y cyfraniadau hyn.

Toiledau

Yn unol a Rheoliadau Addysg 1999 [Mangreuedd Ysgol] mae'r ysgol yn darparu toiledau a basnau ymolchi ar gyfer dysgwyr fel a ganlyn :

Disgyblion dros 5 oed : 1 toiled / basn ymolchi ar gyfer pob 20 disgybl

Disgyblion o dan 5 oed : 1 toiled / basn ymolchi ar gyfer pob 10 disgybl. Glanheir toiledau yr ysgol yn ddyddiol.

Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol, ond nid oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo. Er hynny, teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi. Felly, anogir taclusrwydd gwisg bob amser.



TYMOR	GENETHOD	BECHGYN
Gaeaf	sgert lwyd neu drowsus ysgol du, crys polo gwyn, crys chwys neu gardigan Ysgol Bro Plenydd	trowsus ysgol du neu lwyd, crys polo gwyn, crys chwys Ysgol Bro Plenydd
Haf	sgert lwyd, crys polo coch Ysgol Bro Plenydd ffrog gingham wen a choch	trowsus ysgol neu drowsus cwta ysgol du neu lwyd crys polo coch Ysgol Bro Plenydd

Gellir archebu crysau chwys, cardiganau a chrysau polo coch Ysgol Bro Plenydd ynghyd ag eitemau eraill yn siop Londis, Y Ffor.

Gwerthfawrogir petai pob plentyn yn gwisgo esgidiau du i ddod i'r ysgol.

Dylai enw'r plentyn fod yn glir ar bob eitem.

Cinio Ysgol

Paratoir cinio yng nghegin yr ysgol gan y gogyddes Mrs Ellen Jenkins a'i chynorthwywraig Bethan Jones. Dilynr bwydlen Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd sydd wedi ei chynllunio'n arbennig gyda chymbwysedd deiet mewn golwg.



Cesglir yr arian cinio gan Ms Bev Atkin, y clerc cinio ar ddydd Gwener. Bydd yr ysgol yn darparu amlenni arbennig ar gyfer arian cinio. .Pris cinio ysgol yw £2.50.



Byddai'n well gan yr ysgol dderbyn sic nac arian. Fodd bynnag fe dderbynir arian gwastad. Mae yr Awdurdod Addysg wedi sefydlu system talu electroneg y gall pob rhiant ei ddefnyddio. Gall rhieni wneud ceisiadau am ginio di dal yn gyfrinachol drwy Adran Budd daliadau Cyngor Gwynedd. Perchir cyfrinachedd yn yr ysgol yn ogystal.

Bocs Bwyd Iach

Gofynnir i chwi sicrhau fod cynnwys y bocs bwyd yn dilyn rheolau deiet cytbwys yn union fel cinio y Gwasanaeth Ysgolion.

Ni ddylai bocs bwyd gynnwys fferins. Mae'r ysgol yn caniatáu un eitem felys yn y bocs megis bisged neu deisen. Caniateir creision unwaith yr wythnos yn unig. Caniateir dŵr neu sudd ffrwythau ond ni chaniateir diod 'fizzy'.



Llefrith

Cynigir llefrith am ddim i holl blant y Cam Sylfaen. Mae llefrith ar gael i'w archebu yn yr ysgol ar gyfer plant CA2.



Rheolau Cyffredinol yr Ysgol

Ni ddylai eich plentyn gyrraedd yr ysgol cyn 8.40 a.m. Ni chaniateir i unrhyw blentyn fod ar dir yr ysgol nac yn yr adeilad heb fod yr athrawon yn bresennol. **Nid yw'r staff dysgu yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw blentyn a fydd yn cyrraedd cyn yr amser hwn.**



Caniateir i blant sy'n mynychu y Clwb Brecwast gyrraedd rhwng 8.10am a 8.40am

Bydd yr ysgol yn darfod am 3.30 p.m. i'r holl ddisgyblion. Danfonir y plant sy'n cerdded gartref, at y ffordd ar hyd y llwybr bach. Danfonir y plant sydd â'u rhieni yn disgwyl amdanynt ar dalcen y gegin.

Ni ryddheir plentyn i ofal neb dieithr. Felly, os yw rhywun nad yw'r ysgol yn ei adnabod yn dod i nôl eich plentyn, gofynnwn i chi hysbysu'r ysgol ymlaen llaw.

Gofynnwn i chi, yn ogystal, ein hysbysu os yw eich plentyn yn mynd i gartref plentyn arall i barti neu i chwarae.

Yn y boreau bydd y llwybr bach ar agor i'r cerddwyr. Gofynnwn i bob cerddwr ei ddefnyddio os gwelwch yn dda.

Ni chaniateir i geir ddod ar iard yr ysgol yn ystod y dydd [9.00 a.m. - 3.00 p.m.]. Felly, os ydych yn dod i nôl eich plentyn o'r ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw, gofynnir i chi barcio tu allan i giatiau'r ysgol.



Gan fod Ysgol Bro Plenydd ar ochr ffordd fawr, gul a pheryglus, mae'r corff llywodraethol yn caniatáu system unigryw iawn o adael i rieni ddod â'u ceir ar yr iard i nôl/hebrwng eu plant i/ o'r ysgol. Mae dyfodol y system yn ddibynnol ar ei diogelwch. Bydd rheolau defnyddio'r system yn cael ei yrru i bob rhiant ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd.



Ni fydd gwersi cerddoriaeth nac addysg gorfforol yn cychwyn yn syth ar ddechrau tymor. Byddwn yn eich hysbysu drwy lythyr o'u hamser cychwyn.

Cynhelir gwersi addysg gorfforol yn rheolaidd bob wythnos. Disgwylir i'r plant ddod â dillad ac esgidiau addas i newid iddynt ar gyfer y sesiynau yma a'r rheini wedi'u labelu yn glir.

Disgwylir i bob plentyn gymryd rhan yn y gwersi addysg gorfforol. Os na fydd y plentyn yn cymryd rhan, yna dylai'r ysgol dderbyn eglurhad ysgrifenedig gan y rhiant.

Ni fydd yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw eiddo personol a gollir neu a niweidir mewn unrhyw ffordd tra yn adeilad yr ysgol.

Ni chaniateir i blant ddefnyddio iard chwarae y Babanod ar ôl oriau ysgol. Mae hawl i bob plentyn ddefnyddio'r maes chwarae a'r brif iard wedi oriau'r ysgol.

Disgwylir i bob plentyn fynd allan ar yr iard i chwarae yn ystod eu cyfnod egwyl, os na fydd y tywydd yn anffafriol. Disgwylir i bob plentyn wisgo'n addas ar gyfer pob tywydd.

Disgwylir i bob plentyn barchu holl offer yr ysgol a'u defnyddio yn y ffordd gywir pan ar fenthyciad yn y cartref.

Dylai holl eiddo personol plentyn, h.y. eitemau o'i wisg ysgol a'i fag gael ei labelu'n glir gyda'i enw.

Os difrodir eiddo'r ysgol neu ran o'r adeilad oherwydd camymddwyn plentyn, disgwylir i'r rhiant dalu'n



Gwasanaethau Cefnogol

Bydd y nyrs ysgol a'r deintydd yn ymweld a'r ysgol yn achlysurol. Bydd gwasanaeth prawf clyw yn digwydd hefyd. Gellir cyfeirio plentyn i sylw y Therapydd Iaith a Lleferydd drwy'r ysgol.

Gofynnir i rieni hysbysu yr ysgol o unrhyw anabledd neu ataliaeth a all amharu ar ddatblygiad eich plentyn. Mae gwybodaeth lawn yn sicrhau ein bod yn gallu cynllunio'r gorau ar ei gyfer.

Trefn Gwyno

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Adran 29 o Ddeddf Diwygio Addysg 2002, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae'r ysgol, Cyrff Llywodraethu a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.

Gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy sgwrs anffurfiol gyda'r athro dosbarth neu'r Pen-naeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf. Pe baech yn parhau'n anfodlon gellir gwneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Llywodraethwyr drwy'r ysgol. Mae'r Llywodraethwyr wedi sefydlu is-banel i ymdrin ag unrhyw gwyn ac wedi mabwysiadu'r weithdrefn a argymhellir gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer ymdrin â chwynion.

Pe digwyddai'n annebygol eich bod yn teimlo nad ymdriniwyd â'ch pryder yn effeithlon, dylech ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg Lleol.



Cyswllt yr Ysgol a'r Cartref

Bydd yr ysgol yn llythyru yn rheolaidd a rhieni i drosglwyddo pob math o wybodaeth am drefniadau, gweithgareddau a digwyddiadau. Gofynnir yn garedig i chwi ddarllen pob gohebiaeth yn ofalus os gwelwch yn dda. Mae gennym wefan yr ysgol hefyd yn llawn gwybodaeth werthfawr a bydd pob llythyr yn ymddangos arni.

Bydd rhieni yn cael eu gwahodd i nosweithiau rhieni yn ystod tymhorau yr Hydref a'r Gwanwyn. Yn ystod Tymor yr Haf cynhelir diwrnod agored ar gyfer plant y ddau ddosbarth ieuenga a noson rieni ac athrawon ar gyfer y dosbarth hynaf.

Bydd yr ysgol yn cyflwyno adroddiad ar dargedau a perfformiad disgyblion yn anffurfiol yn ystod y ddau dymor cyntaf ac adroddiad flynyddol lawn ar ddiwedd Tymor yr Haf.

Cau'r Ysgol

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gadw yr ysgol ar agor ar gyfer ein disgyblion. Weithiau fodd bynnag oherwydd tywydd garw neu argyfwng bydd rhaid gyrru'r plant adref yn gynnar a byddwn yn eich hysbysu o hynny yn syth. Weithiau bydd yn rhaid i'r Pennaeth wneud penderfyniad ben bore fod yr ysgol ynghau am y diwrnod. Bydd gwybodaeth or fath ar wefan Cyngor Gwynedd ac ar ein gwefan ni. Bydd y pennaeth hefyd yn tecstio pob rhiant sydd wedi rhoi eu caniatad i hynny ddigwydd. Os ydych mewn amheuaeth ffoniwch yn syth.



Corff Llywodraethol Ysgol Bro Plenydd



Mae rôl y llywodraethwyr yn hanfodol i ddatblygiad yr ysgol, Gwnant benderfyniadau ynglyn â sut mae'r ysgol yn cael ei gweithredu. Bydd y corff llawn yn cyfarfod o leiaf un waith bob tymor,.

Mae llywodraethwyr yn cael eu penodi i gynorthwyo :-

1. I benderfynu beth sydd yn cael ei ddysgu
2. I safoni ymddygiad y plant.
3. I gyfweld a phenodi staff.
4. I benderfynu sut mae gwario'r gyllideb.

Mae llywodraethwyr yn gallu bod yn:-

1. Rheni
2. Athrawon a staff ategol yn yr ysgol.
3. Cynrychiolwyr cynghorau lleol.
4. Cynrychiolwyr wedi eu cyfethol.

Mae rhiant-llywodraethwr :-

1. Gyda phlentyn yn yr ysgol.
2. Yn cael ei ethol/hethol gan rieni'r ysgol.
3. Yn gwasanaethu fel bob llywodraethwr arall am gyfnod o 4 blynedd.

Mae Rhiant - Llywodraethwr yn allweddol ar gyfer dod â barn rhieni i'r corff cyfan, ond gallant drafod fel unigolion. Mae ganddynt statws cyfartal a'r hawl i fwrw pleidlais.

Byddwch chi fel rhieni yn ethol 3 Rhiant - Llywodraethwr am gyfnod o 4 blynedd.

Corff Llywodraethol 2018—2019

Cadeirydd :

Clerc : Ms Nerys Davies [annibynnol o'r Corff)

Staff yr Ysgol : Mrs Carys Hughes

Staff Ategol : sedd wag

Rhieni Mr Arwel Owen

Mrs Natalie Coles-Williams

Ms Fallon Williams

Cyngorydd Lleol : Mr Peter Read

Cynrychiolydd Awdurdod Addysg : Dr Arfon Williams

Cyfeholedig : Mr John Gareth Parry Mrs Kathleen Roberts

Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned : Mr Stefan Jones



Y Gymdeithas Rieni

Prif nod y Gymdeithas Rieni yw cefnogi y profiadau cyfoethog y mae Ysgol Bro Plenydd yn drefnu ar gyfer ei disgyblion.

Mae'r gwaith o wneud hynny yn mynd yn anoddach yn flynyddol yng ngwyneb toriadau yng nghyllidebau ysgolion.

Mae'r arian a godir yn flynyddol gan Gymdeithas Rieni yr ysgol yn hanfodol i gefnogi yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.

Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod yn dymhorol i drafod syniadau a threfnu gweithgareddau codi arian i'r ysgol. Mae'r Gymdeithas yn croesawu pob rhiant fod yn weithredol fel aelod ohoni.

Gwybodaeth Bersonol

Bydd pob rhiant yn cyflwyno gwybodaeth bersonol wrth gofrestru eu plentyn yn yr ysgol. Bydd yr ysgol hefyd yn gyrru ffurflen adnewyddu gwybodaeth bersonol allan ar gychwyn pob tymor newydd.

Os oes unrhyw newidiadau yn digwydd i fanylion personol eich plentyn yn ystod y flwyddyn addysgol a fydddech mor garedig a'n hysbysu o hynny cyn gynted ac y bo modd os gwelwch yn dda.



DYDDIADAU TYMHORAU a GWYLIAU Y FLWYDDYN ADDYSGOL 2018—2019

Tymor yr Hydref

Medi 3ydd, 2018 -- HMS staff dysgu

Medi 4ydd - Hydref 26ain, 2018 - ysgol ar agor i blant
Hydref 15fed a 26ain—HMS

Hydref 29ain – Tachwedd 2ail, 2018 - Gwyliau Diolchgarwch

Tachwedd 5ed - Rhagfyr 21ain, 2018 - ysgol ar agor i blant

Rhagfyr 24ain, 2018 - Ionawr 4ydd 2019 - Gwyliau Nadolig

Tymor y Gwanwyn

Ionawr 7fed, 2019—HMS staff dysgu

Ionawr 8fed - Chwefror 22ain, 2019 - ysgol ar agor i blant

Chwefror 25ain – Mawrth 1af 2019 - Gwyliau Hanner Tymor

Mawrth 4ydd - Ebrill 12fed - ysgol ar agor i blant

Ebrill 15fed, 2019 - Ebrill 26ain - Gwyliau Pasg

Tymor yr Haf

Ebrill 29ain – Mai 24ain, 2019- ysgol ar agor i blant

Mai 6ed, 2019 - Calan Mai

Mai 27ain – Mai 31ain, 2019 - Gwyliau Hanner Tymor

Mehefin 3ydd – Gorffennaf 19eg 2019 - ysgol ar agor i blant



Cysylltu a Ni

Mae'r ysgol yn gweithrerdu polisi drws agored felly os oes ganddoch bryder ynglyn ag unrhyw agwedd o fywyd neu waith eich plentyn yn yr ysgol dowch i gysylltiad yn syth.

Gan ein bod yn barhaus yn brysur byddwn yn gwerthfawrogi petaech yn cysylltu er mwyn trefnu amser cyfleus i chwithau a ninnau er trafodaeth.

Carys Hughes
[Pennaeth]

